



Cynllun Gweithredu Siarter Iaith Gymraeg AUR



Ysgol Edern (Medi 2017 - Gorffennaf 2018)

Ein Gweledigaeth:

Ymrwymwn i ddatblygu disgyblion sydd yn gadael yr ysgol hon yn gweithio, chwarae a chymdeithasu yn hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ymfalchio yn eu hetifeddiaeth Gymreig.

<u>Deilliannau</u>	<u>Camau Gweithredu</u>	<u>Cyfrifoldeb a dyddiad</u>	<u>Tystiolaeth gadarnhaol o effaith y gweithredu ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac ar gynnal agweddau iach tuag at yr iaith</u>
<u>Disgyblion</u> Effaith cadarnhaol o ganlyniad i weithredu syniadau'r disgyblion ar ffyrdd o hyrwyddo/cynnal/cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth, ysgol, ar yr iard ac yn y gymuned leol.	<p>Y Cyngor Ysgol i drafod data y gwe iaith yn ystod tymor yr Hydref. Llunio targedau / camau gweithredu bwriadus.</p> <ul style="list-style-type: none">• Chwarae cerddoriaeth Cymraeg yng nghyntedd yr ysgol yn ddyddiol. Sicrhau fod pob dosbarth yn gwybod pwy sy'n canu a beth yw enwau'r caneuon.• Cael cyflenwad o DVD's Cymraeg ar gyfer amser chwarae gwlyb a'r clwb brecwast.• Gemau bwrdd Cymraeg ar gyfer amser chwarae gwlyb a'r clwb brecwast. <p>Cyngor ysgol i roi cyflwyniad PP i rieni am bwysigrwydd siarad Cymraeg a phwysigrwydd dwyieithrwydd.</p>	Aelodau y Cyngor Ysgol Hydref 2017	<p>Cofnodion y Cyngor Ysgol.</p> <p>Ymateb y disgyblion.</p> <p>Defnydd cynhwysfawr yn cael ei wneud o'r gemau bwrdd a'r DVD's Cymraeg.</p> <p>Ymateb y rhieni.</p>

	<p>Sicrhau fod y 'Ddraig Hybu Iaith' yn cael lle amlwg ym mhob dosbarth er mwyn gloywi iaith plant yr ysgol. Hyrrwyddo defnydd o iaith clodwiw, graenus a chyfoethog – idiomau, dywediadau, geiriau gwych</p> <p>Holiadur Siarter Iaith (o leiaf 2 waith y flwyddyn i fesur cynnydd)</p> <p>Manteisio ar gyfleoedd a ddaw i'w rhan yn ystod y flwyddyn, e.e. Y Sgwad Sgwennu, Y Cwis Llyfrau, Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfodau lleol.</p> <p>Gwisgo coch /dillad Cymru ar ddiwrnodau Cymreig e.e. Owain Glyndwr, Gwyl Ddewi. Trefnu 'Eisteddfod yr ysgol' ar Ddydd Gwyl Dewi</p> <p>Dathlu diwrnod y llyfr / gwisgo fel cymeriadau o lyfrau Cymraeg</p> <p>Gwahodd awduron Cymraeg i'r ysgol i gyflwyno'r grefft o ysgrifennu, e.e. Casia Wiliam, Llyr Titus. Gwahodd actorion Cymraeg i gynnal gweithdai, e.e. Mewn Cymeriad.</p> <p>Defnyddio canolfanau addysgu lleol i hybu Cymreictod, e.e. Ty Newydd Llanystumdwy, Plas Tan y Bwlch.</p>	<p>Athrawon dosbarth Drwy'r flwyddyn</p> <p>Athrawon dosbarth i arwain hyn. Hydref 2017, Mai 2018.</p> <p>Staff yr ysgol i arwain.</p> <p>Pennaeth i gydlynu</p> <p>Staff yr ysgol i arwain</p> <p>Tachwedd 2017</p> <p>Pennaeth i gydlynu Ionawr 2018 Mawrth 2018</p>	<p>Arddangosfeydd yn y dosbarthiadau.</p> <p>Sgwrs gyda'r disgyblion.</p> <p>Dadansoddiad o'r Holiaduron Siarter Iaith / Data Gwe iaith.</p> <p>Lluniau i ddangos dathliadau Cymreictod</p> <p>Tystiolaeth lluniau</p> <p>Tystysgrifau</p> <p>Gwaith plant</p>
--	--	--	--

<i>(Yr ysgol yn gosod targedau sy'n addas i'w sefyllfa a'i chefnidir ieithyddol unigol)</i>			
<u>Rhieni</u>			
Rhieni yn deall ac yn gwerthfawrogi manteision dwyieithrwydd a gwerth Y Gymraeg yn y Gymru fodern, e.e. tystiolaeth trwy ymatebion holiaduron, dealltwriaeth o nod Llywodraeth Cymru – Miliwn o siaradwyr, ayyb.	Cyflwyniad gan y Cyngor Ysgol: Cyngor ysgol i roi cyflwyniad PP i rieni am bwysigrwydd siarad Cymraeg a phwysigrwydd dwyieithrwydd. Ffocysu ar yr hyn a wneir yn Ysgol Edern i hyrwyddo hyn.	Cyngor Ysgol Mehefin 2017 / Mehefin 2018	Ymateb y rhieni yn dilyn y cyflwyniad.
Yr ysgol yn hyrwyddo, cynnal a dathlu llwyddiannau'r Siarter Iaith yn yr ysgol a'r gymuned yn gyson, e.e. gwefan ysgol, cyfrif Trydar, Gweplyfr, blog.	Trydar a nodi ar weplyfr yr ysgol yr holl weithgareddau a wneir yn yr ysgol i hyrwyddo'r Siarter Iaith. Nodi ar wefan yr ysgol pan fydd yn barod. Cadw tystiolaeth mewn Portffolio Siarter Iaith / Llyfr Lloffion yr ysgol.	Y Pennaeth i nodi'r llwyddiannau drwy gydol y flwyddyn.	Tystiolaeth: Gweplyfr Trydar Llyfr Lloffion Portffolio Siarter Iaith Gwefan newydd Ysgol Edern pan yn barod.

<p>(Yr ysgol yn gosod targedau sy'n addas i'w sefyllfa a'i chefnidir ieithyddol unigol)</p>	<p>Gweithgareddau cartref / ysgol i hybu ymwybyddiaeth rhieni o draddodiadau a diwylliant Cymraeg</p> <p>Rhannu gwybodaeth efo'r rhieni di-Gymraeg am gyrsiau oedolion a rhannu Pamffled y Siarter Iaith iddynt.</p> <p>Rhannu'r llyfr 'Geirfa Cymraeg / Saesneg' i'r rhieni di-Gymraeg er mwyn magu eu hyder yn yr iaith. Annog eu plant i helpu eu rhieni adref i adolygu'r eirfa yn y llyfr.</p> <p>Dosbarthu taflen wybodaeth am apps defnyddiol Cymraeg.</p>	<p>Holl staff yr ysgol Drwy gydol y flwyddyn</p> <p>Pennaeth</p> <p>Pennaeth i rannu'r llyfrau</p> <p>Pennaeth i rannu'r daflen wybodaeth.</p>	<p>Ymateb rhieni yng nghofnodion darllen y plant / yn y llyfrau gwaith cartref.</p> <p>Sgwrs gyda'r rhieni. Trafod yr eirfa sy'n y llyfr gyda'r rhieni di-Gymraeg.</p> <p>Holi'r disgyblion am y defnydd a wnant o'r appiau adref. Holiaduron.</p>
<p><u>Llywodraethwyr</u></p>			
<p>Llywodraethwyr yn deall nod ac amcanion y Siarter Iaith ac yn weithredol wrth gefnogi gweledigaeth yr ysgol, e.e. yn trafod data'r Gwe iaith, yn monitro effaith y gweithredu, yn deall nod Llywodraeth Cymru - Miliwn o siaradwyr, argymhellion Dyfodol Llwyddiannus.</p>	<p>Llywodraethwr dynodedig yn trafod Data'r Gwe iaith gyda'r Cyngor Ysgol ac yn trafod y camau gweithredu. Adrodd nol i'r Corff Llawn.</p> <p>Y Cyngor Ysgol i adrodd ar effaith y gweithredu yn ystod y flwyddyn i'r Corff Llywodraethol yn ystod Tymor yr Haf.</p>	<p>Cyngor Ysgol ac Aelod Dynodedig y Siarter Iaith.</p> <p>Aelodau o'r Cyngor Ysgol</p>	<p>Cofnodion y Cyfarfod Llywodraethwyr</p>

<p>(Yr ysgol yn gosod targedau sy'n addas i'w sefyllfa a'i chefnidir ieithyddol unigol)</p>	<p>Sicrhau fod y Siarter Iaith ar yr agenda tymhorol. Adrodd yn ôl yn dymhorol am unrhyw brosiectau / datblygiadau trwy Adroddiad y Pennaeth.</p>	<p>Pennaeth / Corff Llywodraethol</p>	<p>Adroddiad y Pennaeth</p>
<p>Gweithle</p> <p>Yr holl weithlu yn ymrwymo, yn cefnogi ac yn gweithredu'n effeithiol wrth gefnogi gweledigaeth yr ysgol a chyflawni nod ac amcanion y Siarter Iaith, e.e. yn effeithio'n gadarnhaol ar ddata'r gwe iaith, yn meddu ar strategaethau cadarn wrth drochi'r iaith a chael dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg, ayyb.</p>	<p>Atgoffa'r holl weithly o'r weledigaeth mewn cyfarfod staff.</p> <p>Sicrhau fod y Cwricwlwm Cymreig yn cael lle amlwg yn y cynlluniau tymhorol.</p> <p>Rhoi sylw i draddodiadau lleol a Chymreig drwy gydol y flwyddyn e.e. Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Pared Dewi Sant. Annog plant i gerdded a chanu yn y Gymraeg yn y Pared. Annog y staff a'r rhieni i ymuno yn yr hwyl.</p> <p>Cystadlu mewn Eisteddfodau lleol a Chenedlaethol ar gystadlaethau llwyfan a llenyddol.</p> <p>Cystadlu mewn cystadlaethau amrywiol drwy gydol y flwyddyn, e.e. y Cwis Llyfrau, cystadleuaeth Masnach Deg, stori fer Radio Cymru.</p> <p>Cynnal caffi darllen i godi bri darllen yn CA2.</p>	<p>Yr holl weithly – Medi 2017</p> <p>Staff dysgu – tymhorol</p> <p>Staff a disgyblion</p> <p>Pennaeth</p>	<p>Cofnodion cyfarfod staff</p> <p>Cynlluniau Tymor Canolig Gwaith plant</p> <p>Gwaith plant Tyriolaeth lluniau Llyfr Lloffion Portffolio Siarter Iaith Trydar Gweplyfr Tystysgrifau</p> <p>Holiadur rhieni c effaith y caffi darllen.</p>

(Yr ysgol yn gosod targedau sy'n addas i'w sefyllfa a'i chefnidir ieithyddol unigol)				
Hyfforddi				
Effaith gadarnhaol i hyfforddiant mewnol a dalgylchol wrth gefnogi nod ac amcanion y Siarter Iaith a gweledigaeth yr ysgol, e.e. modelu a throchi iaith, gemau buarth, ymwbyddiaeth iaith, ymweliadau arfer dda.	Hyfforddiant Uwch Sgilio Darllen yn y Cyfnod Sylfaen. Ffocws ar yr wyth ymddygiad darllen ar draws yr ysgol. Hyfforddiant Elklan i dargedu disgyblion gydag anhawsterau iaith a chyfathrebu. Hyfforddiant Geirio Gwych i loywi iaith a chyfoethogi tasgau ysgrifennu ar draws yr ysgol.	Staff y Cyfnod Sylfaen Staff yr ysgol Cymorthydion addysgu Staff yr ysgol	Arfarnu effaith yr hyfforddiant amrywiol ar yr addysgu a'r dysgu yn ystod y flwyddyn drwy gyfrwng arsylwadau gwersi a chyfnodau craffu ar lyfrau.	
(Yr ysgol yn gosod targedau sy'n addas i'w sefyllfa a'i chefnidir ieithyddol unigol)				
Cydweithio dalgylchol	<u>Camau Gweithredu</u>	<u>Cyfrifoldeb a dyddiad</u>	<u>Cost</u>	<u>Tystiolaeth gadarnhaol o effaith y gweithredu ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac ar feithrin agweddau iach tuag at yr iaith</u>
Effaith gadarnhaol wrth gynllunio'n fwiadus ar lefel dalgylchol i gefnogi nod ac amcanion y Siarter Iaith yng nghyd-destun un neu fwy o'r canlynol : hyfforddiant, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, y	Creu diwrnod 'Hwyl Haf' - diwrnod dalgylchol i ddathlu Cymreictod. Ysgolion y dalgylch i roi arian grant 'Siarter Iaith' ar gyfer creu y diwrnod dalgylchol yn nhymer yr Haf 2018.	Penaethiaid Dalgylch Botwnnog Tachwedd 2017 – parhau drwy'r flwyddyn	Costau grwpiau ac enwogion Cymru	Cyngor ysgol pob ysgol yn cyfarfod i daflu syniadau ac yn cymdeithasu yn y Gymraeg. Disgyblion yn elwa o gymdeithasu yn y Gymraeg gyda phlant ysgolion y dalgylch. Rhieni yn gwerthfawrogi digwyddiadau diddorol yn y Gymraeg.

gymuned.	<p>Sioned Williams (Hosbis) i drefnu y diwrnod. Gellir gwahodd grwpiau, actorion, cynnal chwaraeon a.y.y.b. Y diwrnod i'w gynnal yng nghlwb Rygbi Pwllheli. Cynnal cyfarfod gyda Sioned Williams yn Ysgol Edern 28/11/17. 2 aelod o bob cyngor ysgol i fod yn bresennol ynghyd ag unai llywodraethwr dynodedig siarter iaith yr ysgol neu cyd lynydd siarter iaith yr ysgol. Taflu syniadau a threfnu gweithgareddau.</p> <p>Pob ysgol yn y dalgylch i wisgo COCH ar ddiwrnod Santes Dwynwen 25/1/18 gan dalu £1 am wneud hynny.</p>			
(Ysgolion y dalgylch yn gosod targedau)				